

Cefnogaeth Cymorth Anfeddygol (NMH) a Ariennir gan eich Lwfans Myfyrwyr Anabl – Beth allwch chi ei ddisgwyl?

Eich Darparwr Cymorth NMH yw darparwr eich **gweithiwr/wyr cymorth 1:1** arbenigol a ariennir drwy eich Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA).

(Pan fyddwn yn cyfeirio at y term gweithiwr cymorth mae hyn yn cynnwys y canlynol: Arbenigwr Sgiliau Astudio, Mentor Arbenigol, Hyfforddwr Technoleg Gynorthwyol, Cymerwr Nodiadau Arbenigol, Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu a Gweithiwr Cymorth Arbenigol i Fyfyrwyr â Nam ar y Synhwyrau.)

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan eich Darparwr Cymorth NMH a'ch Gweithiwr Cymorth.

1. Dylai eich sesiynau ganolbwyntio ar ddatblygu eich sgiliau academiaidd, adeiladu eich hyder a gwella eich mynediad at ddysgu, gyda'r nod o sicrhau ffordd fwy ymreolaethol o ddysgu. Dylech dderbyn cymorth ble mae'r myfyriwr yn ganolog sy'n sensitif i'ch anghenion astudio unigol a'ch blaenoriaethau academiaidd. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol bod cymorth pwnc-benodol a phrawfddarllen y tu allan i gylch gwaith eich gweithiwr cymorth ac na ddylid ei ddisgwyl.
2. Dylech gael eich trin â thegwch ac urddas, mewn modd parchus mewn perthynas â gwahaniaethau unigol gan gynnwys: oedran, rhyw, rhywioldeb, crefydd, diwylliant ac ethnigrwydd, iechyd ac anabled.
3. Dylai eich gweithiwr cymorth fod â phrofiad a/neu gymwysterau addas.
 1. Mae cymwysterau gorfodol ar gyfer rolau a ariennir gan SFE wedi'u nodi gan yr [Adran Addysg](#).
 2. Mae canllawiau ar addasrwydd Gweithwyr Cymorth ar gyfer rolau a ariennir gan CMC i'w gweld yn [Atodiad 4 yma](#); gellir defnyddio rhestr cymwysterau gorfodol yr Adran Addysg y cyfeirir ati uchod fel pwynt cyfeirio ar gyfer cymwysterau priodol lle bo angen.
4. Dylech ddisgwyl ymateb i e-byst a negeseuon ffôn o fewn 2 ddiwrnod gwaith (ar adegau prysur, megis ar ddechrau'r tymor, gall amseroedd ymateb ymestyn i 5 diwrnod gwaith.)
5. Dylai eich cymorth gael ei ddarparu mewn lleoliad sy'n cael ei ystyried yn briodol gennych chi a'ch arbenigwr cymorth, gan ystyried cyfrinachedd, hygyrchedd, iechyd a diogelwch, a gofynion gweithio'n unigol. Ni ddylai cefnogaeth ddigwydd mewn mannau cyhoeddus fel siopau coffi gan na all y rhain gynnig y cyfrinachedd sydd ei angen ar gyfer cymorth NMH.
6. Dylech allu cael mynediad i'ch sesiynau 1:1 naill ai o bell (e.e. galwad fideo ar-lein) neu wyneb yn wyneb, o'ch dewis.
7. Os teimlwch fod angen oriau ychwanegol o gymorth, bydd angen i chi ofyn am y rhain gan y Ganolfan Asesu Anghenion a gynhaliodd eich Asesiad Anghenion DSA gwreiddiol. Ni fydd eich gweithiwr cymorth yn gallu darparu oriau ychwanegol o gymorth heb gymeradwyaeth y corff ariannu.
8. Mae eich gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu heb eich caniatâd, ac eithrio lle mae cred resymol y gallech fod mewn perygl o niweidio eich hun neu eraill.

9. Dylech wybod dyddiad, amser a ffocws eich sesiwn nesaf, fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, ni ddylech deimlo dan bwysau i drefnu blociau o sesiynau os nad ydych yn teimlo bod angen y rhain.
10. Dylai eich sesiynau cymorth gael eu darparu ar amser, a lle bo modd dylech gael 24 awr o rybudd o'r angen i ganslo sesiwn. Os oes angen i'ch arbenigwr cymorth ganslo'ch sesiwn, dylai aildrefnu hyn gyda chi.
11. Dylech allu rhoi adborth ar y cymorth a gewch, a dylid esbonio sut rydych yn gwneud hyn i chi.
12. Dylech allu gofyn i'ch Darparwr NMH am newid gweithiwr cymorth, ond yn gyntaf efallai y byddai'n werth archwilio a yw newid y trefniadau cyfarfod neu'r dull gweithredu yn gweithio'n well i chi.
13. Ni ddylech gael eich rhoi ar restr aros i gael mynediad at eich cymorth a gallwch ofyn yn lle hynny i gael eich trosglwyddo i ddarparwr cymorth arall.
14. Gallwch ddisgwyl i'ch Darparwr NMH gael Polisi Cwynion wedi'i gyhoeddi'n glir a dylid tynnu eich sylw at hwn.
15. Gallwch ddisgwyl yr un safonau o gymorth p'un a ydych yn cael mynediad at gymorth a ariennir gan y DSA gan a darparwr preifat, prifysgol neu ddarparwr arall.

Disgwylir i chi:

- Gyrraedd yn brydlon ar gyfer apwyntiadau a, lle bo modd, rhoi 24 awr o rybudd o ganslo.
 - Os mai'ch corff cyllido yw SFE, dim ond 2 waith yr ariennir sesiwn wedi ei ganslo y tymor, fesul math o gefnogaeth.
 - Os mai CMC yw eich corff ariannu, bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r angen i ganslo; gellir ystyried ceisiadau rhesymol am gyllid ac efallai y bydd nifer y cansladau y telir amdanynt yn gyfyngedig.
- Cymerwch ran weithredol yn eich cefnogaeth a chynllunio eich cefnogaeth.
- Triniwch eich gweithiwr cymorth ag urddas a pharch.
- Parchwch ffiniau rôl y gweithiwr cymorth a pheidio â gofyn na disgwyl i'ch gweithiwr cymorth ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol sydd y tu allan i gylch gorchwyl ei rôl.
- Gwiriwch a llofnodwch eich taflenni amser sesiwn yn brydlon. Ni ddylid disgwyl i chi lofnodi ymlaen llaw ar gyfer sesiynau yn y dyfodol.

Ar unrhyw adeg, gallwch gysylltu â'ch asesydd anghenion i drafod y cymorth yr NMH a argymhellir.

Crëwyd gan y sefydliadau canlynol

[ADSHE – Cymdeithas Arbenigwyr Dyslecsia mewn Addysg Uwch](#)

[ANMHP – Cymdeithas Darparwyr Help Anfeddygol](#)

IAC – Rhwydwaith Annibynnol o Ganolfannau Asesu

[NADP – Cymdeithas Genedlaethol Ymarferwyr Anabledd](#)

[NNAC – Rhwydwaith Cenedlaethol o Ganolfannau Asesu](#)

[NUS – Undeb y Myfyrwyr](#)

[PATOSS - Cymdeithas Broffesiynol Athrawon Myfyrwyr gydag Anawsterau Dysgu Penodol](#)

[UMHAN – Rhwydwaith Cynghorwyr Iechyd Meddwl Prifysgolion](#)